**ATODIAD 'B'**

Adroddiad y Cadeirydd

Mae 2024/25 wedi bod yn flwyddyn brysur arall i'r Gymdeithas, gyda llawer o ddigwyddiadau a heriau i ni i gyd.

Yn gwbl groes i'r flwyddyn flaenorol, bu haf 2025 yn hynod sych ac arweiniodd at brinder porfa mewn llawer o ardaloedd.

Bu llawer o deithio i'r Gymdeithas eleni gyda'r stondin yn mynd i ddigwyddiadau NSA yn Brecon, Penrith, South Molton ac fe wnaeth Kathryn deithio i County Derry. Aeth y stondin hefyd i'r Sioe Frenhinol. Mae'r digwyddiadau hyn wir yn ffenestr siop i'r diwydiant defaid ac mae'n bwysig eu cyflawni'n iawn. Diolch i'r rhai a ddarparodd ddefaid ar gyfer y stondinau, roeddent yn glod i'r Gymdeithas.

Ymwelodd Herd's Media â Chymru i ffilmio dau fideo hyrwyddo arall ac mae'r "views" a gawsom arnynt yn profi eu bod yn werth eu gwneud. Diolch i Richard & Jennifer Twose a Dylan & Anwen Jones a'u teuluoedd am ganiatáu i ni ffilmio eu defaid.

Rydym wedi cryfhau ein perthynas gyda'r Farmers Guardian eleni ac wedi cael tri erthygl hyrwyddo yn y papur ar gyfer Reuben Saunders, Roger & Helen Wells ac un ar gyfer Pwyllgor Datblygu'r Brid. Rydym hefyd wedi rhoi mewnosodiad yn nghylchgrawn yr NSA eleni am y tro cyntaf.

Mae'r pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf yn mynd o nerth i nerth gyda thrafodaethau diddorol a'n ennyn aelodaeth gynyddol o bob cwr o'r wlad.

Mae'r Pwyllgor Datblygu'r Brid yn edrych ar ddatblygiadau technegol presennol ar draws y diwydiant ac mae rhai o'n haelodau yn y PRLB wedi cymryd rhan yn y prosiect Breed4change.

Cafodd ein hail werthiant ar-lein ei gynnal. Roedd y rhai a werthodd yn falch o'r prisiau a gafwyd ond effeithiodd y tywydd yn negyddol ar werthiant eleni.

Cafodd rheoliadau tafod las ddylanwad mawr ar ein gwerthiannau eleni gyda chyfyngiadau a newidiadau rheolau trwy'r tymor gwerthu. Addasodd y cyngor ein cyfarwyddyd cystal ac y gallem i geisio helpu ein haelodau.

Torrodd ein prisiau pob record yn ein gwerthiannau eleni tra bod gwerthiannau eraill wedi bod yn gyson ac mae rhai wedi bod yn siomedig. Roedd y canlyniadau'n amrywio o ardal i ardal gyda'r tywydd a thafod glas yn chwarae rhan fawr yn yr anghysondebau.

Mae'r clybiau wedi bod yn brysur yn cynnal rhai dyddiau agored a digwyddiadau rhagorol ar gyfer ein haelodau a'r rhai sydd â diddordeb yn y clybiau a'r prynwyr posibl.

Mae rhagor o heriau o'n blaenau gyda Kathryn yn gadael y Gymdeithas ac rydym yn dymuno pob lwc iddi yn y dyfodol. Diolch i Gwenda a Kathryn am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn.

Diolch hefyd i swyddogion y cyngor ac i aelodau'r is-bwyllgor sy'n rhoi eu hamser i gefnogi'r gymdeithas a'r brid Lleyn.

Yn arbennig, diolch i Wynne Davies am ei amser fel Llywydd. Mae ei wybodaeth am y Gymdeithas heb ei ail a gobeithio y bydd ei wybodaeth encyclopædaidd ar gael i ni o hyd!

Rydym i gyd yn ymwybodol o'r hyn gall defaid Lleyn ei wneud, ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein gwaith hyrwyddo yn parhau i ddangos y rhywogaeth a'i lle ar flaen y gad yn y diwydiant Defaid.